Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

Economaidd

Pwynt Gweithredu HS6.3

Y Cyngor i ystyried sut a ble yn y CDLlN y gall fynegi ei gefnogaeth i gyfranogiad cymunedol a chreu lleoedd ar gamau o uwchgynllunio a datblygu safle Llaneirwg yn y dyfodol.

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig o ran Polisi SP3, Polisi SP4 a Chynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Lleoedd yn darparu'r fframwaith polisi i wneud darpariaeth ar gyfer cyfranogiad cymunedol cynnar, a all gynnwys camau uwchgynllunio a datblygu safle Llaneirwg yn y dyfodol.

Y newidiadau arfaethedig

- Mae pwynt bwled ii Polisi diwygiedig arfaethedig SP3 Sicrhau Ymagwedd uwchgynllunio (fel y'i nodir ym Mhwynt Gweithredu 14.1) yn nodi'r gofyniad ar gyfer ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid i lywio uwchgynlluniau ar gyfer safleoedd strategol, datblygiadau preswyl o 100 o anheddau neu fwy a chynigion datblygu sy'n cynnwys camau a thirberchnogaeth lluosog.
- Mae'r newidiadau arfaethedig a nodir ym Mhwynt Gweithredu 14.4 yn cydnabod Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Lleoedd y Cyngor fel mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau wrth lunio lleoedd lleol a deilliannau datblygu.
- Mae'r testun esboniadol ychwanegol i SP3 a SP4 yn ymgorffori ymhellach Gynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Lleoedd sydd wedi eu seilio ar y gymuned o fewn y framwaith uwchgynllunio a dylunio ar gyfer datblygiadau mawr.